# PAPURAU BUSNES / BUSINESS PAPERS

## Rhan 1 – Adran E / Part 1- Section E

### DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /

### WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

### A GYFLWYNWYD / TABLED ON

### 29/01/01

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-2001-0004 Condemnio'r defnydd amhriodol o systemau cyfrifiadurol/Condemnation of the inappropriate use of computer systems

30 Jan 2001 Raised by Jocelyn Davies

No Subscribers

*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hwn yn galw ar Brif Weinidog Cymru i gondemnio'r defnydd llwfr y mae aelodau gweithredol o'r Blaid Lafur sy'n ymhonni eu bod yn unigolion preifat yn ei wneud o system gyfrifiadurol Millbank i ddifrïo dros y Rhyngrwyd aelodau o Blaid Cymru – The Party of Wales sy'n byw yng Nghymru.*

*This National Assembly call on the First Minister to condemn the cowardly use of Millbank's computer system by Labour Party activists masquerading as private individuals to denigrate Plaid Cymru - The Party of Wales members living in Wales over the Internet.*

## OPIN-2001-0001 Trydydd Campws Meddygol i Gymru/ A Third

## Medical Campus for Wales

23 Jan 2001 Raised by Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther, Janet Ryder

1 Subscriber:

Peter Rogers

*Mae'r Cynulliad hwn o'r farn y dylai trydydd campws ar gyfer Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru gael ei sefydlu a'i leoli ym Mangor.*

*Byddai hyn yn fodd i:*
*- gynorthwyo â'r strategaeth recriwtio sy'n angenrheidiol yn y tymor hir ar gyfer yr NHS yng Nghymru, ac yn fodd i ategu'r strategaeth honno*
*- gwella'r ddarpariaeth sydd ar gael o ran cynnig addysg feddygol trwy gyfrwng y Gymraeg*
*- rhoi cyfle i arbenigo mewn meysydd sydd o ddiddordeb i Gymru*
*- adeiladu ar y lefel brofedig o ymchwil uchel ei ansawdd*

*Mae'n nodi bod cefnogaeth eang i'r uchelgais hwn ymhlith Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru, Ymddiriedolaethau NHS, Prifysgol Cymru, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, a phobl y Gogledd.*

*This Assembly believes that a third campus of the University of Wales College of Medicine should be developed and located at Bangor.*

*This would:*
*- assist and compliment the necessary long-term recruitment strategy for the NHS in Wales*
*- enhance Welsh medium provision of medical education*
*- provide the opportunity for specialisation in Welsh areas of interests*
*- build on the established level of high quality research*

*and notes the existence of widespread support for this ambition among the North Wales Health Authority, NHS Trusts, University of Wales, University of Wales College of Medicine and the people of North Wales.*

## OPIN-2000-0112 Biwro Cofnodion Troseddol/Criminal Records Bureau

14 Dec 2000 Raised by Brian Hancock, Owen John Thomas MA

13 Subscribers:

Peter Rogers
Dafydd Wigley
Helen Mary Jones
Ron Davies
Cynog Dafis
Rhodri Glyn Thomas
Peter Black
David Melding
John Griffiths LLB
Mick Bates
David Davies
Gareth Jones
Janet Ryder

*Mae gwir angen am gynnal profion diogelwch llym ar weithwyr a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn croesawu'r Biwro Cofnodion Troseddol, a ddaw i rym ym mis Gorffennaf 2001 ac mae'n awyddus i weld y Llywodraeth yn San Steffan yn diddymu'r ffioedd archwilio ar gyfer gwirfoddolwyr, yn unol â'r pwerau sydd ganddynt o dan Ddeddf yr Heddlu 1997.*

*There is a clear need for stringent security checks on employees and volunteers working with children and vulnerable adults. The National Assembly for Wales welcomes the introduction of the Criminal Record Bureau, which comes into effect in July 2001 and requests that the Government at Westminster waive the vetting fees for volunteers as they are empowered to do so under the 1997 Police Act.*